COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWYD AR DDYDD LLUN 4 MAWRTH 2019 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR DYFFRYN CLWYD AM 7.30 Y.H.

1: YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Tim Baker, Gruff Jones, Jackie Bird, Dave Ritchie, Nick Smith, Rhian Jones, dau aelod o'r cyhoedd (Valerie Warr a Graham Roberts) a'r Clerc.

2: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Ken Tams a Bob Barton

3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB.
A. Y Cyng. Jackie Bird – eitem 13 ar yr agenda.
B. Y Cyng. Rhian Jones – eitem 16 ar yr agenda.

3. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.
Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 4 Chwefror 2019 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.
A. GWEFAN Y CYNGOR. Mr Tim Bennet yw'r Gwefeistr a gynigodd ddyfynbris tebyg ar gyfer ailwampio gwefan Cyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd. Gwefeistr presennol y Cyngor, sef Brown Hen, sy'n diweddaru'r wefan ers cyfarfod diwethaf y Cyngor. Tasg y Cyng. Rhian Jones yw diweddaru'r broses sy'n gysylltiedig â diweddaru'r wefan gyda Brown Hen.
B. GRŴP CYSWLLT CYMUNEDOL. Mae'r Cyng. Tim Baker yn trefnu cyfarfod mis Ebrill y Grŵp Cyswllt Cymunedol.

5. CYNNYDD PARTHED CYLCHGRAWN Y 'LINK'.
Adroddodd y Cyng. Lyn Evans ar y cynnydd parthed cylchgrawn y 'Link':-
A: Mae wedi datrys problem prinder defnydd ar gyfer cyfrol y Gwanwyn – mewn gwirionedd, roedd gormod o ddefnydd.
B. Mae'n chwilio am erthyglau ar gyfer cyfrol yr Haf.
C. Erthygl gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned.
D. Dosbarthiad: er mwyn ceisio cael y gwerth gorau a dosbarthiad effeithiol, mae am roi cynnig ar ddefnyddio gwirfoddolwyr yn ogystal ag anfon drwy'r post. Bydd hyn yn cael ei drefnu gyda Fiona Culvar a thrwy ddefnyddio cofrestr bleidleisio 2019 ward Llanbedr. Cytunodd yr Aelodau i helpu'r Cyng. Evans gyda'r dosbarthu a diolchwyd iddo am ei waith ar y mater yma.

6. CYNNYDD PARTHED MONITRO CYFLYMDER.
Dywedodd y Cynghorydd Gruff Jones y bydd yr hyfforddiant ar gyfer "Monitro Cyflymder" yn cael ei gynnal ddydd Sadwrn 23 Mawrth 2019, gydag o leiaf 6 gwirfoddolwr yn mynychu.

7. CINIO DYDD GŴYL DEWI.
Dywedodd y Cyng. Lyn Evans y bu'r digwyddiad yn llwyddiannus, fod y bwyd yn wych, y gwirfoddolwyr yn ardderchog a'r adloniant yn dda hefyd. Y wers i'w dysgu ar gyfer digwyddiad tebyg yn y dyfodol yw bod angen addurno'r Neuadd i adlewyrchu dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae dau wirfoddolwr bellach wedi cytuno i wneud hyn.

Dylid anfon diolch ysgrifenedig i'r canlynol:-
Ann Jones – Cogyddes.
Ron Bell – Gofalwr Neuadd y Pentref.
Rose Hislop – Grŵp UBA.
Mike Jones, Rheolwr Cynorthwyol Tesco am y daleb £20.
Diolchodd y Cyng. Lyn Evans i'r gwirfoddolwyr canlynol am eu gwaith:-
Ray Molyneaux
Julie Molyneaux
Dave Ritchie
Jackie Bird
Ken Tams
Bob Barton
Olive Sherman
Alan Hinchcliffe.

8. CYNNYDD PARTHED ADNEWYDDU'R ASTROTURF.
Dywedodd y Cyng. Lyn Evans ei fod wedi mynychu cyfarfod yn Ysgol Llanbedr ar 18 Chwefror i drafod y prosiect.
Roedd y canlynol yn bresennol:-
Lyn Evans
Sian Jones
How Williams
Huw Price – Rheolwr Prosiect Teesons.
Julia Braddock – Cadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol.
Dau gynrychiolydd o Gyngor Sir Ddinbych.
Mae'n rhaid i'r prosiect gael ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Ddinbych gan mai hwy sy'n berchen y tir. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn trafod y prosiect adnewyddu ar 26 Mawrth. Ar hyn o bryd, rydym yn aros i glywed gan Sian Jones ynglŷn â mynd allan i dendr i symud y prosiect yn ei flaen.

9. CYNNYDD PARTHED EGLWYS HYNAFOL SANT PEDR.
Dywedodd y Cyng. Rhian Jones fod y broses o adnewyddu Eglwys Hynafol San Pedr yn mynd rhagddi, ac y bydd angen hyd at 3 blynedd i'w gwblhau. Mae hi wedi anfon erthygl i gylchgrawn y Link parthed y prosiect.

10. LLYTHYR MRS PHILPOTT.
Mae'r Cyngor wedi gwella ei berfformiad fel a ganlyn:-
A: Postio pob agenda ynghynt.
B. Postio'r cofnodion ynghynt.
C. Dulliau cyfathrebu eraill – mae'r broses ar y gweill o anfon y Link ar ei newydd wedd i'r mwyafrif o ddeiliaid tai.
D. Cyfryngau cymdeithasol.
E. Presept – rhaid i ni fod yn gliriach wrth ymdrin â'r presept.

11. DYFYNBRISIAU AR GYFER ADNEWYDDU'R ARDD LECHI.
Dywedodd y Cyng. Dave Ritchie ei fod wedi cael tri dyfynbris am y gwaith sydd angen ar gyfer Gardd Lechi Llanbedr. Ar ôl edrych yn fanwl ar y tri dyfynbris, penderfynodd yr Aelodau roi'r contract i "Evergreen Gardening" o Ruthun. Y pris a ddyfynnwyd yw £260.00. Cafodd y Cynghorydd Ritchie y dasg o sicrhau fod y gwaith adnewyddu'n cael ei wneud cyn gynted â phosibl.

12. ADNEWYDDU ARWYDD LLANBEDR DC.
Cafodd y Cyng. Rhian Jones y dasg o sicrhau fod y gwaith adnewyddu'n cael ei wneud gan ba bynnag gontractwr all ei ddechrau gyntaf.

13. MYNEDIAD AT OFOD DYNODEDIG Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL.
Eglurodd y Cyng. Lyn Evans fel a ganlyn:-
A: Mae'r perchnogion wedi cytuno gyda Phriffyrdd Llywodraeth Cymru parthed mynediad o'r A494/Lôn Cae Glas i'r safle.
B. Nid yw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn fodlon â'r ffaith bod pafin yr A494 yn rhy gul.
C. Fe awgrymwyd llwybr amgen drwy'r fynwent. Mae'r Eglwys yng Nghymru'n araf iawn yn ateb y Tirfeddianwyr.
Defnyddiodd y Cynghorydd Evans ei gyswllt â Rheolwr Prosiect Eglwys Gogledd Cymru i gysylltu ag Alex Granville, Pennaeth Ystadau Eglwys ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru, er mwyn cael y caniatâd angenrheidiol.
Mae swm gohiriedig o £27,000 yn dod o ddatblygiad Williams Homes, y gellid ei roi at yr arian sy'n dod o'r datblygiad hwn ar gyfer "Llecyn Gwyrdd" y pentref.
Mae gan y Cynghorydd Jackie Bird, ynghyd â Valerie Warr a Graham Roberts oedd yn bresennol, bryderon ynglŷn â mynediad y datblygiad.

14. CWRS HYFFORDDI UN LLAIS CYMRU.
Mae'r Cynghorydd Bob Barton yn y broses o ddarparu cwrs hyfforddi pwrpasol Un Llais Cymru ar "Modiwl 1 - Y Cyngor". Bydd y cwrs yn cael ei gynnal yn lleol ar gyfer y Cyngor lleol am £399 yn ogystal â chostau teithio'r hyfforddwr. Nid oes digon o Gynghorwyr wedi ymrwymo i'r dyddiad arfaethedig o 18 Mawrth 2019 oherwydd ymrwymiadau eraill. Penderfynodd yr Aelodau symud y Cwrs Hyfforddi i 4 Ebrill 2019 a gofynnwyd i'r Clerc hysbysu'r Cyng. Barton fod y dyddiad wedi'i newid.

15. CYLLID.
A. Cyfrifon banc:-
1. Cyfrif Cyfredol - £20,461.90.
2. Cyfrif Cadw - £9,336.37.
B. Taliadau awdurdodedig:-
1. Aelodaeth Un Llais Cymru 2019/2020 - £133.00.
2. Brenda Jones – Cofnodion mis Chwefror - £120.00.
3. Ann Jones am ddarparu Cinio Dydd Gŵyl Dewi - £600.00.
4. Consuriwr ar gyfer dathliad Cinio Dydd Gŵyl Dewi - £100.00.
5. Cyflog y Clerc am y chwarter ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 - £440.00.
6. Cyllid a Thollau EM – TWE am y chwarter ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 - £495.00.
7. Costau'r Clerc am y chwarter ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 - £525.69.
C. Taliadau Lwfansau Cynghorwyr 2018/19 :-
1. Tim Baker - £500.00.
2. Bob Barton - £120.00.
3. Jackie Bird - £100.00.
4. Lyn Evans - £1,320.00.
5. Dave Ritchie - £150.00.

16. CAIS CYMORTH GRANT YSGOL LLANBEDR.
Derbyniodd y Clerc gais gan Ysgol Llanbedr am £350 i brynu llyfrau gwybodaeth newydd ar gyfer pob llyfrgell ddosbarth a dillad pob tywydd ar gyfer tripiau ysgol. Yn dilyn sylwadau Mr Huw Williams, y Cynghorydd Sir fod yr Ysgol yn cael ei hariannu eisoes gan Gyngor Sir Ddinbych, cytunodd y Cyng. Jackie Bird y byddai'n cysylltu â'r Ysgol er mwyn iddynt egluro unrhyw wariant cymorth grant ac iddi adrodd yn ôl i'r Cyngor wedyn.

17. CEISIADAU CYNLLUNIO.
Ni dderbyniwyd unrhyw gais.

18. HYSBYSIADAU PENDERFYNIAD CYNLLUNIO.
Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi rhoi caniatâd cynllunio ar y ceisiadau cynllunio canlynol:-
A: Cais cynllunio 16/2018/1157 – Codi adeilad amaethyddol ar Fferm Bathafarn, Llanrhydd.
B: Cais cynllunio 16/2018/1137 – Adeiladu 38 annedd a mynedfa newydd i gerbydau, a darparu ardal agored a gwaith cysylltiedig ar dir ger yr Hen Reithordy, Llanbedr Dyffryn Clwyd.

19. GOHEBIAETH.
Mae gohebiaeth eisoes wedi'i chynnwys mewn mannau eraill yn y cofnodion.

20. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.
Aeth y Cyng. Lyn Evans i gyfarfod safle gyda How Williams, Cynghorydd Sir Ddinbych, a Swyddog Diogelwch Ffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ar 4 Mawrth er mwyn trafod y materion canlynol:-
A: Ysgol Llanbedr – ail-baentio'r marciau melyn y tu allan i fynedfa'r Ysgol.
B. Glanhau ffordd mynedfa'r Ysgol.
C. Gofyn am gyfyngiad cyflymder o 20 m.y.a. ar gyfer y naill ddynesfa i'r Ysgol a'r llall.
D. Mesurau tawelu traffig rhwng yr ardd lechi a Williams Homes.
E. Mesurau tawelu traffig rhwng yr A494 a'r ardd lechi.

21. DYDDIAD CYFARFODYDD NESAF Y CYNGOR.
Gofynnodd y Cyng. Bob Barton a fyddai'r Cyngor yn gallu symud y cyfarfodydd misol o'r dydd Llun cyntaf o bob mis gan fod y dyddiad yn disgyn ar yr un diwrnod a Chyngor Cymuned Llandegla. Dim ond ar y dydd Llun cyntaf o bob mis oedd yr Aelodau'n gallu mynychu cyfarfodydd y Cyngor.

22. MATERION BRYS DAN ADRAN 100B (4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.
A. Penderfynodd yr Aelodau y dylai'r Clerc gysylltu â Swyddogion perthnasol Cyngor Sir Ddinbych parthed y materion canlynol:-
1. Mae angen atgyweirio'r Lloches Bysiau ar yr A494 gyferbyn â'r Griffin.
2. Mae angen atgyweirio'r fynedfa wrth fin y ffordd ar y B5429 wrth fynedfa Neuadd Llanbedr.
B. Dywedodd y Cyng. Dave Ritchie fod y ffens tu ôl i'r Ardd Lechi Gymunedol wedi torri a bod angen ei hatgyweirio. Cytunodd y Cyng. Lyn Evans i ymchwilio i hyn.

23. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Dydd Llun 1af Ebrill 2019 yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.